Adroddiad Cynllunio rhag Argyfyngau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd

Rhagfyr 2014

Simon Dawson: Peiriannydd Parodrwydd am Argyfwng newydd, Safle Trawsfynydd

Cefndir

Cymerais yr awenau fel Peiriannydd Parodrwydd am Argyfwng ar ôl i Amanda Tucker symud i Sizewell A. Roeddwn i'n arfer bod yn Gynlluniwr Busnes y Safle.

Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r Cynllun Argyfwng ers sawl blwyddyn, mewn gwahanol rolau a gyda'r tîm achub, gan sicrhau bod y safle'n dal i gydymffurfio o safbwynt rhanddeiliaid a'r rheoleiddiwr, ac yn sicrhau diogelwch y staff, y gwaith, y cyhoedd a'r amgylchedd.

Byddaf yn gwneud fy ngorau i ddefnyddio fy ngwybodaeth a'm brwdfrydedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau, a phan fo hynny'n bosib, rhagori arnynt.

Trefniadau Argyfwng y Safle

Dangoswyd trefniadau argyfwng y safle i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ym mis Mehefin eleni, lle dangosodd Safle Trawsfynydd y trefniadau'n ddigonol i fodloni'r ONR y byddem yn gallu delio â digwyddiad radiolegol.

Fodd bynnag, nododd y tîm sicrwydd a oedd yn arsylwi'r ymarfer, fod yna feysydd i'w gwella, ac argymhellwyd ein bod yn ail-ddangos yr agweddau hyn.

Gwnaed hyn ddydd Mercher 12 Tachwedd, 2014. Bu dau gynrychiolydd o'r ONR ac Arolygydd Safle Magnox yn arsylwi'r ymarfer hwn. Roeddent yn fodlon fod ein mesurau delio â phobl sydd wedi cael eu hanafu a rheoli halogiad yn bodloni eu disgwyliadau, ac maent wrthi'n drafftio eu hadroddiad ar hyn o bryd. Cwblhaodd y timau ymateb perthnasol hyfforddiant ychwanegol, gyda chefnogaeth Nuvia, i'n helpu ni i gyflawni hyn.

Staff y Cynllun Argyfwng

Ar hyn o bryd, mae dau aelod newydd o staff yn cael eu recriwtio i ymuno â'r cynllun argyfwng, er mwyn lleihau'r pwysau o ganlyniad i salwch tymor hir / staff yn ymddeol, a dylent fod yn eu gwaith erbyn dechrau 2015.

Dyfodol Cynllun Argyfwng y Safle

Yng nghyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle, cawsoch wybod bod y safle wedi cyflwyno dogfen Gwerthuso Risg Canfod Peryglon (HIRE) newydd i'r ONR. Mae hwn yn amlinellu unrhyw ddigwyddiad y gellir ei ragweld yn digwydd yn Safle Trawsfynydd a'r risg i'r cyhoedd a'r amgylchedd o dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) (REPPIR). Cododd yr ONR ambell gwestiwn, ond maent bellach wedi cael eu hateb ac mae'r safle'n aros am ymateb yr ONR.

Pan fydd y ddogfen HIRE wedi cael ei chymeradwyo, disgwylir llythyr gan yr ONR, yn rhoi gwybod i'r safle nad oes angen Cynllun Argyfwng Oddi ar y Safle, a disgwylir hyn yn gynnar yn 2015. Bydd y safle'n gweithio tuag at adael REPPIR yn gyfan gwbl a bydd yn drafftio cyfres o drefniadau wrth gefn er mwyn delio ag unrhyw ddigwyddiad dirnadwy, a dylai hyn fod ar waith erbyn canol 2015. Wrth gwrs, byddaf yn rhoi gwybod i'r Grŵp am y newidiadau hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Simon Dawson
Peiriannydd Parodrwydd am Argyfwng

Emergency Planning Report to the Trawsfynydd Site Stakeholder Group

December 2014

Simon Dawson: New Emergency Preparedness Engineer (EPE) at Trawsfynydd Site

Background

I took over as the EPE in October after Amanda Tucker moved on to Sizewell A. My previous role was Site Business Planner.

I have been involved for a number of years with the Emergency Scheme participating in various roles and in the rescue team ensuring the site remains compliant from a stakeholder and regulator perspective, achieving and ensuring the safety of staff, plant, the general public and the environment.

I will endeavour to bring my knowledge and enthusiasm in support of achieving our goals and where possible improving upon them.

Site Emergency Arrangements

The site emergency arrangements were demonstrated to the Office of Nuclear Regulation (ONR) in June this year when Trawsfynydd Site adequately displayed the arrangements to satisfy the ONR of our ability to deal with a radiological incident.

However the assurance team who observed the exercise noted there were areas of improvement and recommended we re-demonstrate these aspects.

The re-demonstration took place on Wednesday 12 November 2014. It was observed by two representatives from the ONR and the Magnox appointed Site Inspector. They were satisfied that our casualty handling and contamination control measures met their expectations and are currently drafting their report. The relevant response teams completed additional training which was supported by Nuvia and helped us achieve this.

Emergency Scheme Staff

Two new members are currently being enrolled on to the emergency scheme to relieve pressure due to long term sickness / retirements and should be in place by early 2015.

The Future of the Site Emergency Scheme

At the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting you were made aware that the site had submitted a new Hazard Identification Risk Evaluation document (HIRE) to the ONR. This outlines any foreseeable event that could happen at Trawsfynydd Site and the risk to the public and environment under REPPIR (Radiation Emergency Preparedness and Public Information Regulations). The ONR raised some queries but they have now been answered and the site awaits the ONR response.

Once the HIRE document is approved a letter is expected from the ONR informing the site an ‘Off Site’ Emergency Plan is not required anticipated early 2015. The site will then work towards leaving REPPIR completely and will be drafting a set of ‘Contingency arrangements’ instead to deal with any conceivable incident and this should be in place by the middle of 2015. I will of course keep the SSG informed of these changes at later meetings.

Simon Dawson
Emergency Preparedness Engineer